**Rhif cyfeirnod: 02060501**

Ceisiadau am Wybodaeth
information.requests@ofcom.org.uk

4 Medi 2025

Annwyl,

## Cais Rhyddid Gwybodaeth: Cais am yr hawl i wybod

Diolch am eich cais am wybodaeth am wasanaeth Cymraeg gan gwmni radio preifat.

Derbyniwyd y cais hwn ar 7 Awst 2025 ac rydym wedi ystyried eich cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth").

### Eich cais

*"Hoffwn fanylion sut y mae'ch mudiad yn Hybu yr iaith Gymraeg ac yn sicrhau gwasanaeth Gymraeg gan gwmnia radio preifat."*

### Ein hymateb

**Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg**

Er nad oes gan Ofcom ddyletswydd barhaus i hyrwyddo'r Gymraeg, mae Ofcom wedi ymrwymo i weithredu'n ddwyieithog yng Nghymru. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Ofcom, fel Rheoleiddiwr y DU, i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Safonau a gyhoeddwyd i Ofcom wedi'u rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym o 25 Ionawr 2017. Mae gan Ofcom Uned y Gymraeg sy'n gweithio i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ein gwaith, lle mae'n ymwneud yn uniongyrchol â Chymru.

Mae Ofcom yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg, yn cael eu cynrychioli yn ein hymchwil; gellir dod o hyd i enghreifftiau o hyn yn Media Nations 2025 - Ofcom a Cyfryngau'r Genedl - Cymru 2025. Mae hyn yn helpu i dynnu sylw at sut mae siaradwyr Cymraeg yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi gwasanaethau cyfryngau, gan gynnwys radio. Yn ogystal, pryd bynnag y bydd Ofcom yn cymryd rhan mewn prosiect polisi newydd, rydym yn cwblhau asesiad effaith i asesu a allai unrhyw agwedd ar ein polisi arfaethedig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu'n ymdrin â'r Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym hefyd yn cwblhau asesiad effaith pan fyddwn yn cynnal ymgynghoriad. Mae'r asesiad hwn yn cael ei grynhoi o fewn yr ymgynghoriad cyhoeddedig ac mae safbwyntiau ar ein hasesiad yn cael ei hystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Sicrhau gwasanaeth Cymraeg gan gwmni radio preifat.**

Gwnaeth Rhan 5 o'r Ddeddf y Cyfryngau newidiadau sylweddol i bwerau a dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â gwasanaethau radio masnachol FM ac AM trwyddedig. Ar gyfer gorsafoedd radio masnachol lleol yn benodol, fe wnaeth ddileu'r ddyletswydd ar Ofcom i sicrhau 'cymeriad gwasanaeth' pob gwasanaeth yn ogystal â dyletswydd Ofcom i sicrhau bod deunydd lleol, gan gynnwys rhaglenni a wneir yn lleol, yn cael ei ddarlledu. Mae'r newidiadau hyn eisoes wedi'u

gweithredu gan Ofcom drwy amrywiadau i 'Fformat' trwyddedau gwasanaeth radio masnachol analog lleol. O ganlyniad, nid oes gan Ofcom unrhyw bŵer i sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn cael ei ddarparu gan y darlledwyr hyn. Mae darparu rhaglenni mewn ieithoedd eraill yn benderfyniad golygyddol a masnachol i ddarlledwyr ac felly nid yw o fewn cylch gwaith Ofcom.

Yn achos radio cymunedol, fodd bynnag, mae Ymrwymiadau Allweddol trwyddedai yn nodi cymeriad y gwasanaeth, gan gynnwys rhaglenni iaith (os yw'n berthnasol) y bydd gorsaf yn eu darparu. Mae Ymrwymiadau Allweddol yn rhan o ddogfen y drwyddedu, sy'n golygu, os bydd cwyn am gymeriad gwasanaeth gorsaf, byddem yn asesu'r gŵyn yn unol â'r egwyddorion Cydymffurfio ar gyfer Ymrwymiadau Allweddol a gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer ymchwilio i dorri trwyddedau darlledu.

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, yna anfonwch nhw at information.requests@ofcom.org.uk – gan ddyfynnu'r cyfeirnod uchod mewn unrhyw gyfathrebiadau yn y dyfodol.

Yn gywir

Ceisiadau am Wybodaeth

**Gofyn am adolygiad mewnol**
Os ydych chi'n anhapus â'r ymateb rydych wedi'i dderbyn i'ch cais am wybodaeth, neu os ydych chi'n meddwl bod eich cais wedi'i wrthod heb reswm dilys o dan y gyfraith, gallwch ofyn am adolygiad mewnol. Os gwnewch hynny, bydd yn destun adolygiad annibynnol o fewn Ofcom. Byddwn naill ai'n cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol, neu'n ei wrthdroi neu'n ei addasu.

Os hoffech ofyn i ni gynnal adolygiad mewnol, dylech gysylltu o fewn dau fis i ddyddiad y llythyr hwn. Nid oes dyddiad cau statudol i ni gwblhau ein hadolygiad mewnol, a bydd yr amser y mae'n ei gymryd yn dibynnu ar gymhlethdod y cais. Ond byddwn yn ceisio cwblhau'r adolygiad o fewn 20 diwrnod gwaith (neu ddim mwy na 40 diwrnod gwaith mewn achosion eithriadol) a'ch hysbysu am ein cynnydd.

E-bostiwch y tîm Ceisiadau am Wybodaeth (information.requests@ofcom.org.uk) i ofyn am adolygiad mewnol.

**Mynd ag ef ymhellach**
Os ydych chi'n anhapus â chanlyniad ein hadolygiad mewnol, yna mae gennych yr hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.